

## **Y CYFANSODDIAD ADRAN 9**

### **Pwyllgorau rheoleiddio ac eraill**

#### **9.1 Pwyllgorau Rheoleiddio a Phwyllgorau Eraill**

Bydd y Cyngor yn penodi'r Pwyllgorau i gyflawni'r swyddogaethau a amlinellir yn Adran 13 y Cyfansoddiad hwn.

#### **9.2 Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio**

9.2.1 Bydd y Cyngor yn penodi Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i gyflawni'r swyddogaethau a ddisgrifir yn Adran 13 y Cyfansoddiad hwn ac yn unol ag adrannau 81-87 y Mesur fel y'i diwygiwyd.

9.2.2 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys tri Aelod ar deuddeg a ffurfiwyd fel a ganlyn:-

(a) wyth Cynghorydd; a

(b) pedwar Aelod nad ydynt yn Aelod o'r Cyngor (Aelodau Lleyg Annibynnol

9.2.3 Penodir Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gan y Pwyllgor a rhaid i'r aelod a benodir fod yn aelod lleyg. Penodir y Dirprwy Gadeirydd hefyd gan y Pwyllgor ac ni all fod yn Aelod o'r Bwrdd Gweithredol nac yn gynorthwydd i'r weithrediaeth.

9.2.4 Caiff holl Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bleidleisio ar unrhyw fater gerbron y Pwyllgor.

#### **9.3 Y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd**

9.3.1 Bydd y Cyngor yn penodi Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd i gyflawni'r swyddogaethau a ddisgrifir yn Adran 13 y Cyfansoddiad hwn.

9.3.2 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys un Cynghorydd ar ddeg ond dim mwy nag un Aelod o'r Bwrdd Gweithredol (ni chaiff yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod yr Arweinydd).

9.3.3 Penodir Cadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd gan y Cyngor Llawn ac ni chaiff fod yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol.

#### **9.4 Y Pwyllgor Cynllunio**

9.4.1 Bydd y Cyngor yn penodi Pwyllgor Cynllunio i gyflawni'r swyddogaethau a ddisgrifir yn Adran 13 y Cyfansoddiad hwn.

9.4.2 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys un ar bymtheg o Gynghorwyr ac ni chaiff yr un ohonynt fod yn Aelod o'r Bwrdd Gweithredol a dim ond un Cynghorydd mewn unrhyw ward aml-aelod fydd yn gymwys i'w benodi.

#### **9.5 Y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol**

9.5.1 Bydd y Cyngor yn penodi Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol i gyflawni'r swyddogaethau a ddisgrifir yn Adran 13 y Cyfansoddiad hwn.

9.5.2 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys pedair ar ddeg Cynghorydd.

## **9.6 Y Pwyllgor Trwyddedu**

9.6.1 Bydd y Cyngor yn penodi Pwyllgor Trwyddedu i gyflawni'r swyddogaethau a ddisgrifir yn Adran 13 y Cyfansoddiad hwn.

9.6.2 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys o leiaf deg ond dim mwy na pymtheg Cynghorydd; bydd aelodaeth y pwyllgor hwn yr un rhai ac sydd yn y Pwyllgor Trwyddedu Amgylcheddol a gyda'r un Cadeirydd.

## **9.7 Y Pwyllgor Penodi**

9.7.1 Bydd y Cyngor yn penodi Pwyllgor Penodi i gyflawni'r swyddogaethau a ddisgrifir yn Adran 13 y Cyfansoddiad hwn.

9.7.2 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys deg Cynghorydd gydag o leiaf un ohonynt ond dim mwy na phump yn Aelod o'r Bwrdd Gweithredol; ni chaiff Aelodau'r Bwrdd Gweithredol fod yn y mwyafrif ar ay pwyllgor hwn.

## **9.8 Pwyllgorau ac Is-bwyllgorau Eraill**

9.11.1 Bydd y Cyngor yn penodi'r cyfryw Bwyllgorau eraill fel ag y mae'n ystyried yn briodol i arfer ei swyddogaethau.

9.11.2 Caiff unrhyw Bwyllgor a benodir gan y Cyngor benodi Is-bwyllgorau a phaneli ychwanegol ar unrhyw adeg ar hyd y flwyddyn. Bydd eu cylch gorchwyl a'r pwerau a ddirprwyir iddynt yn benodol ac o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor a'u penododd.

## **9.9 Rheolau Gweithdrefnol a Thrafod**

9.9.1 Amser a Lleoliad Cyfarfodydd

Pennir amser a lleoliad cyfarfodydd gan y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid ac fe'u nodir yn yr wŷs.

9.9.2 Rhybudd am Gyfarfodydd a Gwŷs iddynt

Bydd y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid yn rhoi rhybudd i'r cyhoedd am amser a lleoliad unrhyw gyfarfod yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14. O leiaf tri diwrnod clir cyn cyfarfod, bydd y Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid yn anfon gwŷs a lofnodwyd ganddo ef/ganddi hi at bob Aelod o'r Pwyllgor. Bydd yr wŷs yn rhoi dyddiad, amser a lleoliad pob cyfarfod ac yn nodi'r busnes sydd i'w drafod. Bydd hefyd yn cynnwys y cyfryw adroddiadau sydd ar gael.

9.9.3 Cadeirydd Cyfarfod

Caiff yr unigolyn sy'n llywyddu'r cyfarfod arfer unrhyw bŵer neu ddyletswydd a briodolir i'r Cadeirydd.

9.9.4 Cworwm

Cworwm cyfarfod fydd chwarter y nifer gyfan o Aelodau'r Pwyllgor ac eithrio'r Pwyllgor Cynllunio (gweler rheol 9.9.5 isod). Yn ystod unrhyw gyfarfod, os bydd y Cadeirydd yn cyfrif nifer yr Aelodau sy'n bresennol ac yn datgan nad oes cworwm yn bresennol, yna bydd y cyfarfod yn cael ei ohirio yn syth. Bydd busnes sy'n weddill yn cael ei ystyried ar

amser a dyddiad a bennir gan y Cadeirydd. Os nad yw ef/hi yn pennu dyddiad, bydd y busnes sy'n weddill yn cael ei ystyried yn y cyfarfod cyffredin nesaf.

#### 9.9.5 Cworwm yn y Pwyllgor Cynllunio

Ni chaiff unrhyw fusnes eu hystyried mewn Pwyllgor Cynllunio neu Is-bwyllgor y Pwyllgor Cynllunio heblaw bod o leiaf hanner aelodau'r pwyllgor wedi'i thalgrynnu i'r nifer gron agosaf yn bresennol.

#### 9.9.6 Presenoldeb o Bell

Caniateir presenoldeb o bell ym mhob cyfarfod pwyllgor ac is-bwyllgor ar yr amod bod y rhai sy'n cymryd rhan yn gallu siarad â'i gilydd a chael eu clywed ac mewn cyfarfodydd sy'n cael eu gweddarlledu i allu gweld a gweld ei gilydd hefyd.

#### 9.9.7 Cwestiynau mewn Pwyllgorau y rhoddwyd Rhybudd ohonynt

(a) Yn amodol ar paragraff (b) isod, caiff Aelod o Bwyllgor ofyn cwestiwn i Gadeirydd y pwyllgor hwnnw ynglŷn ag unrhyw fater y mae gan y Cyngor bwerau neu ddyletswyddau yn ei gylch neu sy'n effeithio ar y sir bwrdeistref ac sydd o fewn cylch gorchwyl y pwyllgor hwnnw.

(b) Caiff Aelod ofyn cwestiwn o dan Reol 9.9.7:

(i) os yw wedi rhoi o leiaf tri diwrnod gwaith clir o rybudd ysgrifenedig neu drwy bost electroneg o'r cwestiwn i'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid; neu

(ii) os yw'r cwestiwn yn ymwneud â materion brys, a bod ganddo/ganddi ganiatâd y Cadeirydd y bwriedir gofyn y cwestiwn iddo a bod cynnwys y cwestiwn yn cael ei roi i'r Prif Swyddog Llywodraethu a Chwsmeriaid erbyn 4 pm ar y diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

#### 9.9.8 Pleidleisio

(a) Penderfynir ar unrhyw fater gan fwyafrif syml o'r Aelodau hynny sy'n pleidleisio ac yn bresennol yn yr ystafell ar yr adeg y gofynnwyd y cwestiwn.

(b) Bydd bleidlais trwy godi dwylo, neu os nad oes anghytundeb, trwy gadarnhad y cyfarfod.

(c) Os oes nifer gyfartal o bleidleisiau o blaid ac yn erbyn, bydd gan y Cadeirydd ail bleidlais neu bleidlais fwrw. Ni fydd cyfyngiad ar sut y bydd y Cadeirydd yn dewis arfer pleidlais fwrw.

#### 9.9.9 Cofnodion

Bydd y Cadeirydd yn llofnodi cofnodion y trafodion yn y cyfarfod addas nesaf. Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion y cyfarfod blaenorol

yn cael eu llofnodi yn gofnod cywir. Yr unig ran o'r cofnodion y gellir ei thrafod yw eu cywirdeb.

#### 9.9.10 Cofnod o Bresenoldeb

Mae'n rhaid i'r holl Aelodau'r Pwyllgor sy'n bresennol yn ystod cyfarfod cyfan neu ran ohono lofnodi eu henwau ar y dalenni presenoldeb cyn diwedd pob cyfarfod er mwyn cynorthwyo â'r cofnod presenoldeb.

#### 9.9.11 Gwahardd y Cyhoedd

Ceir gwahardd aelodau'r cyhoedd a'r wasg dim ond yn unol â'r Rheolau Gweithdrefnol Mynediad at Wybodaeth yn Adran 14 y Cyfansoddiad hwn neu 9.9.12 (Aflonyddwch gan y Cyhoedd).

#### 9.9.12 Ymddygiad Aelodau

- (a) Pan fydd Aelod yn siarad mae'n rhaid iddo ef/iddi hi, os galla ef/hi, sefyll ac annerch y cyfarfod trwy'r Cadeirydd. Os bydd mwy nag un Aelod yn mynegi eu bod yn bwriadu siarad, bydd y Cadeirydd yn gofyn i un siarad. Mae'n rhaid i Aelodau eraill aros yn dawel tra bod Aelod yn siarad oni bai eu bod yn dymuno codi pwynt o drefn neu roi esboniad personol.
- (b) Pan fydd y Cadeirydd yn siarad yn ystod trafodaeth, mae'n rhaid i unrhyw Aelod sy'n siarad ar y pryd fod yn dawel. Bydd y cyfarfod yn dawel.
- (c) Os bydd Aelod yn diystyru dyfarniad y Cadeirydd yn gyson trwy ymddwyn yn amhriodol neu'n llesteirio busnes yn fwriadol, caiff y Cadeirydd gynnig na ddylid clywed mwy gan yr Aelod. Os caiff y cynnig ei eilio, cynhelir pleidlais arno heb drafodaeth.
- (d) Os bydd yr Aelod yn parhau i ymddwyn yn amhriodol ar ôl i gynnig o'r fath gael ei dderbyn, caiff y Cadeirydd gynnig bod yr Aelod yn gadael y cyfarfod neu fod y cyfarfod yn cael ei ohirio am gyfnod penodol. Os caiff y cynnig ei eilio, cynhelir pleidlais arno heb drafodaeth.

#### 9.9.13 Aflonyddwch gan y Cyhoedd

- (a) Os bydd aelod o'r cyhoedd yn torri ar draws y trafodion, bydd y Cadeirydd yn rhoi rhybudd i'r unigolyn dan sylw. Os bydd yn parhau i dorri ar draws, bydd y Cadeirydd yn gorchymyn iddo ef/iddi hi gael ei symud o ystafell y cyfarfod.
- (b) Os oes aflonyddwch cyffredinol mewn unrhyw ran o ystafell y cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, caiff y Cadeirydd alw am i'r rhan honno gael ei chlirio.

#### 9.9.14 Defnyddio Cyfryngau Cymdeithasol yn ystod Cyfarfodydd

Caniateir defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn ystod cyfarfodydd cyn belled ag na aflonyddir ar reolaeth y cyfarfod.

#### 9.9.15 Rheolau Trafod

Bydd Rheol Gweithdrefnol y Cyngor yn Adran 4.23 yn berthnasol.